Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Uned Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau, Ysbyty Athrofaol Cymru

Dyddiad y gweithgarwch: 31 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80195-357-3

© Hawlfraint y Goron 2021

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Uned Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau, Ysbyty Athrofaol Cymru, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Uned Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau yw'r brif ganolfan driniaeth ar gyfer cleifion rhwng 14 a 25 oed yn ne a chanolbarth Cymru. Mae gan yr uned wyth gwely i gleifion mewnol ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau gofal dydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r uwch-nyrs a dirprwy reolwr y ward ddydd Mercher 31 Mawrth 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:
Dywedwyd wrthym mai dim ond newidiadau bach y bu angen eu gwneud i'r amgylchedd mewn ymateb i COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod yr uned ar ddau lawr. Mae'r ardal i gleifion mewnol, sydd wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf, yn cynnwys dwy gilfan â thri gwely (un i fechgyn ac un i ferched), pob un ag ystafell ymolchi. Caiff urddas y cleifion ei hybu drwy ddarparu ystafelloedd ymolchi ar wahân i fechgyn a merched a chau'r llenni o amgylch pob gwely yn llawn. Mae yna ddau giwbicl, pob un â chyfleusterau en-suite. Mae'r ciwbiclau'n golygu bod modd ynysu cleifion os oes angen.

Mae ardal yr uned ddydd, sydd wedi'i lleoli ar yr ail lawr, yn cynnwys tair cadair i gleifion, gyda llen yn gwahanu pob un er mwyn cynnal urddas. Fodd bynnag, dim ond dwy gadair y gellir eu defnyddio ar y tro ar hyn o bryd er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Mae gan yr uned ddydd hefyd ystafell ddynodedig lle y caiff gweithdrefnau clinigol eu cynnal. Mae ystafell ymolchi sydd â mynediad i bobl anabl ar gael ar gyfer cleifion gofal dydd.

Dywedwyd wrthym fod yr uned fel arfer yn trin cleifion rhwng 14 a 25 oed, yn dibynnu ar aeddfedrwydd a dymuniadau'r claf. Ers dechrau'r pandemig, mae'r ystod oedran wedi cynyddu i bobl rhwng 16 a 29 oed, er mwyn lleihau'r pwysau o ran gwelyau yn y prif ysbyty. Cymerir gofal i sicrhau bod cleifion ar naill begwn yr ystod oedran hon yn cael gofal gyda chleifion o oedran tebyg. Cynhelir asesiad risg ar gyfer cleifion 16 neu 17 oed wrth eu derbyn er mwyn penderfynu pa ardal sydd fwyaf addas i ddarparu gofal iddynt. Caiff cleifion sy'n iau na 16 oed eu derbyn i Ysbyty Plant Cymru, sydd wedi'i lleoli'n agos at yr uned, ar gyfer triniaeth, gyda chymorth gan Gydlynydd Cymorth Ieuenctid yr uned. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw oedi o ran darparu triniaeth o ganlyniad i'r pandemig na'r newidiadau hyn.

Mae gan yr uned ei Wi-Fi ei hun yn ogystal â mynediad at Wi-Fi y bwrdd iechyd. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer y grŵp cleifion iau. Mae teledu ar gael wrth bob gwely. Mae'r ail lawr yn cynnig ardal gymdeithasol ddynodedig ychwanegol i gleifion sy'n cynnwys setiau teledu mwy o faint, gemau fideo a byrddau pŵl. Ers y pandemig, dywedwyd wrthym fod y defnydd o'r ardal gymdeithasol wedi'i gyfyngu i gleifion gofal dydd yn unig yn ystod oriau'r dydd. Fodd bynnag, y tu allan i oriau, gall y cleifion mewnol ddefnyddio'r ardal hon gan sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol. Mae'r holl gyfarpar yn yr ardal hon yn cael ei

lanhau'n drylwyr ar ôl ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Gwnaed hyn drwy ddulliau rhithwir yn bennaf yn ystod y pandemig. Mae pob claf yn gallu defnyddio llechen electronig er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Bydd gan y rhan fwyaf o'r cleifion eu ffonau symudol eu hunain er mwyn cyfathrebu â ffrindiau a pherthnasau. Gellir darparu ffôn llinell dir os oes angen.

Dywedwyd wrthym fod y Cydlynydd Cymorth Ieuenctid yn darparu gweithgareddau grŵp er mwyn helpu'r bobl ifanc ar yr uned i ymgysylltu a rhyngweithio. Fodd bynnag, ers y pandemig, darperir gweithgareddau ar sail un i un. Cynhelir y rhain yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Darperir therapi tynnu sylw therapiwtig gan Beads of Courage UK[1], drwy gelf a chrefft, cerddoriaeth, neu sgwrs.

Hefyd, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu cefnogi gan weithwyr cymdeithasol CLIC Sargent[2], sy'n ymweld â chleifion ar yr uned. Gall y cleifion hefyd fanteisio ar gymorth caplaniaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae gwasanaethau seicoleg ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod swydd wag yn y ddarpariaeth Seicoleg i Bobl Ifanc yn eu Harddegau ac Oedolion Ifanc, ac mae hynny wedi effeithio ar argaeledd gwasanaethau i gleifion rhwng 16 a 17 oed yn benodol.

Gan fod poblogaeth y grŵp cleifion yn ifanc ac yn gallu symud o amgylch fel arfer, dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion o friwiau pwyso/niwed i'r meinwe hyd yma. Caiff pob claf ei asesu bob wythnos ar gyfer y risg o ddatblygu niwed i'r meinwe gan ddefnyddio adnoddau asesu cydnabyddedig.
Dywedwyd wrthym fod un achos o glaf yn cwympo wedi cael ei gofnodi eleni. Caiff pob claf ei asesu ar gyfer y risg o gwympo bob wythnos gan ddefnyddio adnoddau asesu cydnabyddedig
Dywedwyd wrthym na wnaed unrhyw atgyfeiriadau diogelu, a bod gan bob claf dan 18 oed asesiad risg ar waith, a gaiff ei rannu ag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

[1] https://beadsofcourageuk.org/
[2] https://www.clicsargent.org.uk/

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:
Dywedwyd wrthym fod yr uned yn gofalu am gleifion ag imiwnedd gwan[3] ac, o ganlyniad, bod mesurau rheoli heintiau llym ar waith bob amser. Ychwanegwyd at y mesurau hyn yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio ar gynnal amgylchedd taclus er mwyn helpu gyda threfniadau glanhau a lleihau'r risg o groes-heintio ymhellach. Cynhelir sesiwn briffio diogelwch bob bore lle y caiff unrhyw faterion mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau eu trafod.

Cawsom gopïau o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, ynghyd â chopi o Gynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym nad oes gan y bwrdd iechyd bolisi penodol ar gyfer COVID-19, gan fod y canllawiau'n cael eu diwygio'n aml. Fodd bynnag, crëwyd tudalen benodol ar fewnrwyd y bwrdd iechyd er mwyn i'r staff gael gafael ar gyngor a chanllawiau penodol a chyfredol mewn perthynas â COVID-19. Caiff y staff hefyd eu cyfeirio at wefannau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy'r dolenni. Caiff diweddariadau dyddiol ar COVID-19 hefyd eu rhannu â'r staff drwy e-bost gan y Prif Weithredwr ac ar y porth clinigol/mewnrwyd.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant penodol ar atal a rheoli heintiau a COVID-19 wedi cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym fod gan yr uned nyrs gyswllt ar gyfer rheoli heintiau sy'n cynnal archwiliadau wythnosol o weithdrefnau golchi dwylo a glanhau comodau.

Dywedwyd wrthym fod llwybr derbyniadau ffurfiol ar waith, gyda chleifion yn cael eu derbyn i ward ddynodedig y tu allan i'r uned er mwyn eu sgrinio ar gyfer COVID-19 cyn eu derbyn i'r uned yn dilyn prawf COVID-19 negatif, ac y gall fod angen sgrinio ychwanegol parhaus yn unol â'r asesiad risg lleol.

Dywedwyd wrthym, pe bai unrhyw glaf yn cael diagnosis o haint tra ei fod ar yr uned, y byddai ymarfer dadansoddi gwraidd y broblem[4] yn cael ei gynnal er mwyn nodi gwersi i'w dysgu. Byddai'r broses hon yn cael ei hadolygu yn ystod cyfarfodydd Heintiau a Geir Wrth Gael Gofal Iechyd misol yr adran, a'i huwchgyfeirio i'r Bwrdd Clinigol.

Dywedwyd wrthym mai sepsis[5] yw un o'r argyfyngau meddygol mwyaf cyffredin a welir ar yr uned. Er mwyn rheoli'r risg o sepsis, mae mentrau dan arweiniad nyrsys wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys llwybr rheoli sepsis cychwynnol dan arweiniad nyrsys a defnyddio cyfarwyddeb

[3] Mae imiwnedd gwan yn derm cyffredinol sy'n golygu bod y system imiwnedd yn wannach na'r disgwyl ac nad yw'n gweithio'n iawn.

[4] Techneg sy'n helpu pobl i nodi pam y digwyddodd y broblem yn y lle cyntaf yw Dadansoddi Gwraidd y Broblem. Ei nod yw nodi gwraidd y broblem gan ddefnyddio cyfres arbennig o gamau, ynghyd ag adnoddau cysylltiedig, er mwyn nodi prif achos y broblem, fel y gallwch benderfynu beth ddigwyddodd, pam y digwyddodd, ac ystyried yr hyn y gallwch ei wneud i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto.

[5]Ymateb eithafol y corff i haint yw sepsis. Mae'n argyfwng meddygol sy'n peryglu bywyd. Mae sepsis yn digwydd pan fydd haint sydd gennych eisoes yn sbarduno ymateb ym mhob rhan o'ch corff. Heb driniaeth amserol, gall sepsis arwain yn gyflym at niwed i'r meinwe, methiant organau a marwolaeth.

grŵp cleifion ar gyfer rheoli hylif a gwrthfiotigau mewnwythiennol.

Dywedwyd wrthym fod arwyddion clir yn yr ardal groesawu, yn y lifft ac ym mhob rhan o'r uned sy'n ymwneud ag egwyddorion cyffredinol rheoli heintiau, er enghraifft, golchi dwylo a defnyddio PPE yn gywir.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau glanhau cynhwysfawr wedi'u rhoi ar waith a bod cyfarpar glanhau ar gael yn hawdd i'r tîm cadw tŷ. Yn ogystal â hyn, mae cyfarpar hylendid ychwanegol wedi'i osod yn yr uned, yn arbennig mewn mannau a ddefnyddir yn rheolaidd, er enghraifft mae weips diheintio ar gael wrth ymyl pob ffôn a chyfrifiadur sy'n cael eu defnyddio gan sawl aelod o'r staff, ac mae gel alcohol ychwanegol ar gael wrth y gorsafoedd PPE wrth fynedfa'r ward.

Dywedwyd wrthym y rhoddir masgiau i gleifion pan fyddant yn gadael ardal eu gwely, er enghraifft i fynychu apwyntiadau mewn rhannau eraill o'r ysbyty. Caiff pob darn o gyfarpar ei lanhau ar ôl i glaf ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym y rhoddwyd ystyriaeth yn gynnar yn y pandemig i'r effaith niweidiol seicolegol y gallai peidio â chaniatáu ymwelwyr ar yr uned ei chael ar y grŵp cleifion iau. Er na chaniateir unrhyw ymwelwyr ar yr uned gofal dydd, ailgyflwynwyd ymweliadau ar gyfer cleifion mewnol dros 18 oed, ac eithrio'r rhai sy'n cael trawsblaniad bôn-gelloedd/mêr esgyrn, yn unol â pholisi Ysbyty Plant Cymru, ar yr amod y dylai'r safbwynt cyffredinol nodi'r canlynol:

- Dim ymweliad oni fydd effaith sylweddol ar y claf.
- Caiff unigolyn enwebedig o aelwyd y claf ei bennu gyda'r claf – dim ond yr unigolyn hwn all ymweld â'r claf, oni bai bod rhieni'r claf wedi ysgaru; mewn achosion o'r fath, caiff y ddau riant ymweld ar wahân os na ellir penderfynu pa riant ddylai ymweld.
- Caiff trefniadau i gyfyngu oriau ymweld eu cyflwyno er mwyn galluogi staff ac ymwelwyr i gadw pellter cymdeithasol.
- Bydd yn ofynnol i'r ymwelydd enwebedig barhau i gadw at y trefniadau ynysu cymdeithasol a chadw pellter cymdeithasol (ar yr uned ac oddi arni)
- Bydd yr uned yn cysylltu â'r unigolyn enwebedig dros y ffôn er mwyn cwblhau holiadur sgrinio cyn iddo ymweld â'r uned.
- Bydd yr ymwelydd yn cael masg wyneb i'w wisgo wrth ymweld â'r uned, a bydd yn dilyn gweithdrefnau golchi dwylo llym.
- Ni chaniateir i'r ymwelydd gymdeithasu yn yr ardal gymdeithasol gydag ymwelwyr neu gleifion eraill.
- Caiff pob claf mewnol ei sgrinio ar gyfer COVID-19 cyn iddo gael ei dderbyn yn ddewisol, a gofynnir iddo lofnodi datganiad wrth gyrraedd yr uned yn nodi manylion am unrhyw symptomau/teithio.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw wyro o'r trefniadau uchod, mewn amgylchiadau eithriadol, yn cael eu trafod â'r uwch-nyrs.

Dywedwyd wrthym na chafodd unrhyw achosion positif o COVID-19 eu cofnodi ers cyflwyno'r trefniadau ar gyfer ymweld â chleifion mewnol.

Mae gan yr uned ddwy swyddfa i'r staff ac un ystafell egwyl i'r staff. Os oes mwy nag un aelod o'r staff yn y swyddfa ar yr un pryd, yna disgwylir i bob aelod o'r staff wisgo masg anadlol. Caiff egwyliau'r staff eu trefnu fel nad oes mwy na dau aelod o'r staff yn yr ystafell staff ar unrhyw adeg, er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Cadarnhaodd dirprwy reolwr y ward na fu unrhyw broblemau o ran cael gafael ar PPE a bod y stoc yn cael ei wirio bob dydd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:
Dywedwyd wrthym fod nifer presennol y nyrsys ar ward y cleifion mewnol yn caniatáu i dri aelod cymwys o'r staff i fod ar ddyletswydd yn ystod y dydd a dau aelod cymwys o'r staff i fod ar ddyletswydd yn ystod y nos, gydag un gweithiwr gofal iechyd ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer pob sifft. Mae dau aelod cymwys o'r staff ar ddyletswydd yn ardal yr uned ddydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, mae cydlynydd Band chwech/saith hefyd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener ac Ymarferydd Nyrsio Band saith. Mae'r uned hefyd yn cael ei chefnogi gan feddyg gradd staff o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dywedwyd wrthym y bu rhai anawsterau o ran cynnal nifer y staff yn ystod y pandemig, o ganlyniad i achosion o salwch byrdymor, cefnogi pwysau'r gaeaf mewn meysydd eraill, a'r angen i staff warchod. Ar adegau, bu'n rhaid lleihau nifer y nyrsys yn ystod y dydd i isafswm o ddau aelod cymwys o'r staff, tra bod lefelau staffio yn ystod y nos wedi aros yr un peth. Cawsom sicrwydd bod y nifer llai o staff nyrsio cymwys yn cydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)6 o hyd. Hefyd, gall tîm yr uned ddydd gefnogi'r ardal cleifion mewnol, gan leihau nifer y staff ar yr uned ddydd fel y bo'n briodol yn glinigol, neu gyda chymorth y cydlynydd uned Band chwech/saith, sef prif nyrs y ward fel arfer. Os na ellir

[6] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/enacted/welsh

darparu'r nifer gofynnol o staff drwy ddefnyddio staff yr uned, darperir staff sy'n meddu ar y profiad addas o'r Gyfarwyddiaeth Hematoleg. Ni chaiff staff banc na staff asiantaeth eu defnyddio'n rheolaidd ar yr uned hon. Pe bai angen gwneud hyn, byddai staff banc neu staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i weithio ar un o'r wardiau hematoleg, gan ryddhau nyrs ward i helpu ar yr uned.

Dywedwyd wrthym caiff aciwtedd cleifion ei gofnodi'n ddyddiol gan ddefnyddio adnodd asesu'r bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu ffurfiol. Caiff pob aelod newydd o'r staff gyfnod o breceptoriaeth[7] a neilltuir aelod uwch o'r staff yn fentor arno. Hefyd, neilltuir hyd at bedair wythnos o amser ychwanegol i aelodau newydd o'r staff ymgyfarwyddo â'r uned. Bydd pob aelod newydd o'r staff yn gweithio gyda nyrsys Band chwech/saith a'r addysgwr ymarfer, er mwyn eu haddysgu a'u hasesu ar arferion lleol. Caiff cymwyseddau craidd ar gyfer y maes eu cymeradwyo ar gyfer nyrsys Band pump a chwech. Bydd yr aelod newydd o'r staff yn cyfarfod â'i fentor bob mis er mwyn trafod anghenion dysgu a chynnydd.

Dywedwyd wrthym y caiff cyfarfodydd tîm rhithwir misol eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf ac fel y gellir rhannu gwybodaeth neu unrhyw bryderon â'r uwch-arweinwyr. Dywedwyd bod presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn dda.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw swyddi gwag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae pum aelod o'r staff ar gyfnod mamolaeth, mae dau aelod o'r staff wedi cael eu secondio i gefnogi pwysau'r gaeaf mewn meysydd eraill, ac mae un aelod o'r staff ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch.

Dywedodd dirprwy reolwyr y ward wrthym fod Adolygiadau Perfformiad, Arfarnu a Datblygu (PADR) staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom gopi o'r ystadegau hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

Hefyd, dywedodd dirprwy reolwr y ward wrthym fod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i roi cymorth ychwanegol i'r staff yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau Iechyd Galwedigaethol y bwrdd iechyd, y defnydd o'r lolfa yng nghlwb cymdeithasol yr ysbyty er mwyn treulio amser i ffwrdd o'r ardal glinigol, a gwybodaeth ysgrifenedig yn cyfeirio'r staff at wasanaethau ac asiantaethau eraill a all gynnig cymorth. Gall y Cydlynydd Ieuenctid hefyd roi cymorth seicolegol i'r staff, ac mae gwasanaethau cwnsela ar gael hefyd. At hynny, dywedodd dirprwy reolwr y ward wrthym fod aelodau o'r tîm yn dda iawn am gefnogi ei gilydd hefyd.

Roedd dirprwy reolwr y ward a'r nyrs arweiniol yn glir ynghylch proses uwchgyfeirio ac adrodd

[7] Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn diffinio preceptoriaeth fel 'cyfnod i arwain a chefnogi pob ymarferydd newydd gymhwyso i bontio o fod yn fyfyriwr i ddatblygu ei ymarfer ymhellach'.

y bwrdd iechyd, a gwnaethant ddweud wrthym fod Prif Weithredwr y bwrdd iechyd yn cael diweddariadau dyddiol am unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr uned.

Nododd rheolwr y ward ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan yr uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth a'r nyrs arweiniol, sy'n bresennol ar y ward bob dydd. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol â rheolwyr ac uwch-nyrsys wardiau eraill hefyd, sy'n cynnig cyfle ychwanegol i drafod a darparu cymorth.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Athrofaol Cymru

Gwasanaeth: Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau

Dyddiad y gweithgarwch:31 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Nid oes angen gwneud unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: